



Llyfr Llafar
gyda
chôd QR
HUD YR enfys
Heulwen
y Dylwythen
Deg Felen
Daisy Meadows
Addasiad Elin Meek


Palas Gwlad y Tylwyth Teg
Castell Iâ Jac y Rhew
Tŷ Hywel Llywelyn
Ceffylau Bach
Drysfa
Coedwig
Helygen
Bwthyn Mrs Morus
Perllan
Crochan Du
Dolydd
Nant
Cae
Tŵr
Y Dref
Bwthyn y Fôr-forwyn
Traeth
Harbwr
Pyllau Glan Môr
Ynys Swynlaw
Bwthyn y Dolffin





Gwyntoedd oer, a rhew ac eira,
Storm a ddaw – pob lliw ddiflanna.
I bob cornel bell o'r Ynys
Taflaf Dylwyth Teg yr Enfys.

Anfonaf storm, anfonaf felltith –
Gwae i bawb yng Ngwlad y Tylwyth!
Am byth bythoedd fe fydd trwbwl –
Eu gwlad a fydd dan law a chwmwl!

Mae Ceirios a Gwawr wedi cael eu hachub.
Nawr mae'n bryd chwilio am

**Heulwen, y Dylwythen Deg Felen**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gwenynen Fach Ffyrnig Iawn | 9 |
| Y Cwch Gwenyn Hudol | 25 |
| Gwenyn yn Ffrindiau | 35 |
| Heulwen yn Anghofio | 43 |
| Da iawn, Frenhines Fach | 55 |
| Y Tylwyth Teg yn Trwsio | 65 |

# Gwenynen Fach Ffyrnig Iawn



"Dere draw fan hyn, Catrin!" galwodd Siriol. Rhedodd Catrin i lawr un o'r caeau gwyrddlas oedd yn y rhan hon o Ynys Swynlaw. Roedd blodau menyn a llygad y dydd yn tyfu ym mhobman.

"Paid â mynd yn rhy bell!" galwodd mam Catrin wrth iddi hi a thad Catrin ddringo dros gamfa ym mhen uchaf y cae.

"Beth wyt ti wedi'i weld, Siriol? Un arall o Dylwyth Teg yr Enfys?" gofynnodd Catrin yn obeithiol ar ôl iddi ddal i fyny â'i ffrind.

"Dwn i ddim." Roedd Siriol yn sefyll ar lan nant fyrlymog. "Ro'n i'n meddwl 'mod i wedi clywed rhywbeth."

Goleuodd wyneb Catrin. "Efallai bod tylwythen deg yn y nant?"

Nodiodd Siriol. Penliniodd ar y borfa feddal a rhoi ei chlust yn agos at y dŵr.

Plygodd Catrin i lawr hefyd, a gwrando'n astud.

Roedd yr haul yn pefrio ar y dŵr wrth iddo dasgu dros gerrig mawr, disglair. Fflachiodd ambell enfys fach liwgar yma ac acw – coch, oren, melyn, gwyrdd, glas, indigo a fioled.

Ac yna clywon nhw lais bach byrlymog yn siarad. "Dilynwch fi . . ." byrlymai. "Dilynwch fi . . ."







"O!" ebychodd Siriol. "Glywaist ti hynna?"

"Do," meddai Catrin yn llawn cyffro. "Rhaid mai nant *hudol* ydy hi!"

Teimlodd Siriol ei chalon yn curo'n gyflym. "Efallai bydd y nant yn ein harwain ni at y Dylwythen Deg Felen," meddai.


Roedd cyfrinach arbennig gan Siriol a Catrin. Roedden nhw wedi addo i Frenin a Brenhines y Tylwyth Teg y bydden nhw'n dod o hyd i bob un o

Catrin. "Dwi mor falch fod 'na bum diwrnod o'r gwyliau ar ôl."

Oes, meddyliodd Siriol, a phump o dylwyth teg i ddod o hyd iddyn nhw: Heulwen, Alaw, Glesni, Indeg – a Grug, wrth gwrs!

Roedd Ceirios, y Dylwythen Deg Goch a Gwawr, y Dylwythen Deg Oren yn ddiogel yn y crochan ym mhen draw'r enfys.

Rhedodd y merched o flaen Mr a Mrs Bowen, gan ddilyn y nant fach fyrlymog. Yn sydyn, diflannodd yr haul y tu ôl i gwmwl mawr du.





Daeth awel oer i chwythu gwallt Catrin. Yn rhyfedd iawn, roedd rhai o'r dail ar y coed yn dechrau troi'n frown, er nad oedd hi'n hydref.




"Dwi'n credu bod coblynnod Jac y Rhew o gwmpas o hyd," rhybuddiodd hi Siriol.

"Dwi'n gwybod," meddai Siriol gan grynu. "Hen daclau ofnadwy ydyn nhw! Fe fyddan nhw'n gwneud eu gorau glas i rwystro Tylwyth Teg yr Enfys rhag mynd yn ôl i Wlad y Tylwyth Teg."

Syllodd y ddwy ffrind yn bryderus i fyny ar yr awyr. Ond, yr un mor sydyn ag y diflannodd, daeth yr haul allan eto. Gwenodd y ddwy yn hapus.

Ar y dolydd roedd meillion yn tyfu a gwartheg du a gwyn yn pori ar lan y dŵr. Edrychon nhw ar y merched â'u llygaid brown enfawr.



"On'd ydyn nhw'n hyfryd?" meddai Catrin.

Yn sydyn, edrychodd y gwartheg i fyny mewn ofn a rhedeg i ben arall y cae.

Beth yn y byd oedd yn digwydd? meddyliodd Siriol a Catrin.

Daeth sŵn sïo uchel o rywle a gwibiodd rhywbeth bach cas drwy'r






awyr, gan anelu'n syth amdanyn nhw! Bu bron i Siriol gael haint. "Gwenynen!" ebychodd. "Rhed!" gwaeddodd Catrin.



Doedd dim rhyfedd bod y gwartheg wedi dianc! Rhedodd y ddwy i ffwrdd yn gyflym.

"Daliwch ati i redeg, ferched," galwodd Mr Bowen, oedd bron â'u cyrraedd nhw. "Mae'r wenynen 'na fel petai hi'n ein dilyn ni!"

Edrychodd Siriol yn ôl. Roedd y wenynen yn enfawr, yn fwy nag unrhyw wenynen a welodd erioed o'r blaen.



"Dewch i mewn fan hyn, glou!" galwodd Mrs Bowen o gornel y cae gan agor clwyd bren.

Rhedodd pawb drwyddi ac yna aros i gael eu hanadl.

"Tybed pwy sy'n byw yma?" meddai Catrin a'i gwynt yn ei dwrn. Roedden nhw mewn gardd brydferth gyda llwybr yn arwain at fwthyn to gwellt â rhosynnau melyn yn tyfu o gwmpas y drws.






Ar hynny, daeth creadur rhyfedd iawn i'r golwg o'r tu ôl i'r coed. Edrychai fel rhywbeth o'r gofod!

"O!" ebychodd Siriol a Catrin.

Cododd y creadur ei ddwylo, a thynnu'i helmed wen . . . Dim ond hen wraig oedd yno! Gwenodd arnyn nhw. "Gawsoch chi fraw?" holodd. "Mae'n ddrwg gen i, ond dwi'n edrych braidd yn rhyfedd yn fy siwt gwenynwr, a'r menig am fy nwylo."



Diolch byth, meddyliodd Siriol. Nid creadur o'r gofod oedd yna wedi'r cyfan!

"Mrs Morus ydw i," meddai'r hen wraig.

"Helô," meddai Siriol. "Siriol ydw i, a dyma Catrin, fy ffrind."

"A dyma mam a 'nhad," ychwanegodd Catrin.

Dwedodd Mr a Mrs Bowen helô wrth Mrs Morus.

Plygodd Mr Bowen ei ben yn sydyn wrth i'r wenynen enfawr wibio heibio i'w glust.



"Help!" gwaeddodd. "O, y frenhines heb gwch sy 'na eto," meddai Mrs Morus. Chwifiodd ei llaw ar y wenynen. "I ffwrdd â ti!" Gwyliodd Siriol y wenynen yn hedfan dros glawdd isel a diflannu.



"Pam oedd y wenynen yn dod ar ein holau ni?" gofynnodd Catrin.

"Nid dyna roedd hi'n wneud, bach," meddai Mrs Morus. "Chwilio am ei chwch gwenyn ei hun mae hi. Ond mae brenhines ym mhob cwch yma'n barod."


"Wel, diolch byth ei bod hi wedi mynd nawr!" meddai Mrs Bowen.

"Gan eich bod chi yma, hoffech chi brofi peth o fy mêl i?" gofynnodd Mrs Morus yn glên.

"O, hoffen, plîs," meddai Siriol.

Dilynodd pawb Mrs Morus dros y lawnt at fwrdd yn llawn potiau mêl.

Roedd pob potyn yn llawn mêl euraidd. Wrth i'r haul dywynnu ar y potiau, roedd y mêl yn disgleirio'n hyfryd.



"Dyma chi," meddai Mrs Morus, gan roi llwyaid o fêl ar blât melyn pert.

"Diolch," meddai Siriol yn gwrtais. Dododd ei bys yn y pwll bach o fêl a'i roi yn ei cheg i'w sugno. O! roedd y mêl yn flasus, yn felys ac yn llyfn.

Yn sydyn, dechreuodd deimlo'r mêl yn pefrio ar ei thafod. "Mae e'n pefrio i gyd!" sibrydodd wrth Catrin.

Rhoddodd Catrin ei bys yn y mêl hefyd. "Ac edrych!" meddai hi.






Gwelodd Siriol fod y mêl yn disgleirio â mil o oleuadau bach aur. Cydiodd ym mraich Catrin. "Wyt ti'n meddwl—"

"Ydw!" meddai Catrin, a'i llygaid yn disgleirio. "Rhaid bod un arall o Dylwyth Teg yr Enfys yn agos!"

# Y Cwch Gwenyn Hudol




"Mae'n rhaid inni weld o ble mae'r mêl yma'n dod!" meddai Siriol yn gyffrous.

"Rhaid wir," cytunodd Catrin. "Gawn ni aros ychydig yn hirach, os gweli di'n dda, Mam?"

"Os ydy Mrs Morus yn fodlon," atebodd ei mam.

Gwenodd Mrs Morus. "Fe fyddwn i wrth fy modd," meddai hi'n garedig.

Penderfynodd Mr a Mrs Bowen fynd yn eu blaenau ar hyd y llwybr.

"Cofiwch ddod 'nôl i Fwthyn y Dolffin erbyn amser cinio," meddai mam Catrin.

"O'r gorau," addawodd Catrin.

"Dewch nawr 'te, ferched," meddai Mrs Morus wrth eu harwain ar draws y lawnt werdd.

Dilynodd Siriol a Catrin hi i lawr yr ardd at berllan o hen goed afalau cnotiog. Roedd chwech o gychod gwenyn o dan y coed.

Syllodd Catrin arnyn nhw. "O ba gwch ddaeth y mêl brofon ni?" gofynnodd.





Edrychodd Mrs Morus yn falch. "Oeddet ti'n ei hoffi fe? Mae'r mêl o'r cwch yna'n blasu'n arbennig o dda ar hyn o bryd."

Gwenodd Siriol a Catrin ar ei gilydd.

"Dwi'n meddwl efallai ein bod ni'n gwybod pam," sibrydodd Siriol wrth Catrin.

"Ydyn," cytunodd Catrin. "Efallai mai mêl tylwyth teg ydy e!"

"Dyna'r cwch," meddai Mrs Morus, gan bwyntio draw i ben draw'r ardd. Dim ond un cwch oedd yno, o dan y goeden afalau fwyaf.





Wrth iddyn nhw ddod yn nes at y cwch, roedd sŵn sïo cysglyd yn codi i'r awyr. "Mae'r gwenyn yn y cwch yma'n dawel iawn ar hyn o bryd," meddai Mrs Morus. "Dwi ddim yn cofio'u gweld nhw mor hapus erioed."

"Gawn ni fynd ychydig yn nes?" gofynnodd Siriol yn gyffrous. Oedd yna gyfrinach hudol yn y cwch, tybed?


Meddyliodd Mrs Morus am eiliad. "Dwi'n credu y dylai popeth fod yn iawn, gan fod y gwenyn mor dawel," penderfynodd. "Ond mae'n well ichi wisgo het arbennig fel f'un i, rhag ofn."

Aeth i'r sied i nôl dwy het gwenynwr. "Dyma chi," meddai.





Gwisgodd Siriol a Catrin yr hetiau am eu pennau. Roedd hi braidd yn dywyll ac yn ddiflas y tu mewn, ond roedden nhw'n gallu gweld yn iawn drwy'r rhwyd.



Symudon nhw'n agosach at y cwch. Roedd y sïo tawel yn swnio bron fel canu.

"Mae'n rhaid i ni agor y cwch i gael gweld," sibrydodd Catrin.

Nodiodd Siriol, ond allen nhw ddim dechrau chwilio am y Dylwythen Felen tra bod Mrs Morus o gwmpas. Roedd Ceirios wedi'u rhybuddio nhw na ddylai unrhyw oedolyn weld y tylwyth teg.

Yn sydyn cafodd Catrin syniad. "Mrs Morus, gaf i ddiod o ddŵr os gwelwch yn dda?" gofynnodd yn gwrtais.

"Cei, wrth gwrs," meddai Mrs Morus, ac i ffwrdd â hi yn ôl i'r bwthyn.


Arhosodd y merched nes bod Mrs Morus wedi mynd o'r golwg.

"Glou!" meddai Catrin. "Gad i ni agor y cwch."

Cydiodd Siriol a Catrin yn y caead a bu'r ddwy yn tynnu . . . a thynnu . . . am amser hir. O'r diwedd, agorodd y caead gan wneud sŵn gwichlyd. Roedd mêl melyn yn hongian ohono.







"Cymer ofal, mae e'n ludiog iawn," meddai Siriol.


Plygodd y merched a gosod y caead pren trwm yn ofalus ar y llawr. Sychodd Catrin ei bysedd ar y borfa.

"Edrych!" sibrydodd Siriol.

"O! Waw!" sibrydodd Catrin mewn syndod.

Saethodd cawod o lwch euraidd i fyny o'r cwch gwenyn. Roedd yn

hofran fel cwmwl meddal, gan dywynnu a dawnsio yng ngolau'r haul. Llwch hud oedd e!




Plygodd Siriol a syllu i mewn i'r cwch gwenyn. Roedd merch fach, fach, yn eistedd ar ddarn o grwybr, ynghanol môr o fêl. Roedd gwenynen





yn gorwedd a'i phen yn ei chôl hi wrth i'r dylwythen fach gribo'i gwallt sidanaidd. O'i chwmpas roedd gwenyn eraill yn aros eu tro, gan sïo'n dawel.



"O, Catrin," sibrydodd Siriol. "Rydyn ni wedi dod o hyd i un arall o Dylwyth Teg yr Enfysl!"

# Gwenyn yn Ffrindiau




Tynnodd Siriol a Catrin eu hetiau a syllu i lawr i'r cwch. Roedden nhw wrth eu bodd.

Roedd gan y dylwythen deg wallt melyn llachar. Roedd hi'n gwisgo mwclis o ddiferion glaw euraidd am ei gwddf, a dwy freichled euraidd, ddisglair. Roedd ei chrys-T a'i siorts melyn llachar yr un lliw â blodau menyn, a mil o enfysau'n pefrio yn ei hadenydd.

"O, diolch am ddod o hyd i mi!" meddai'r dylwythen mewn llais fel cloch. "Heulwen, y Dylwythen Deg Felen, ydw i."

"Siriol ydw i," meddai Siriol.

"A Catrin ydw i," meddai Catrin.




"Rydyn ni wedi cwrdd â dwy o dy chwiorydd di'n barod – Ceirios a Gwawr."

Gwenodd Heulwen yn hapus. "Rydych chi wedi dod o hyd i Ceirios a Gwawr?" Safodd ar ei thraed, gan wthio'r wenynen i ffwrdd yn dyner.

"Ydyn. Maen nhw'n ddiogel yn y crochan ym mhen draw'r enfys," meddai Ceirios.






Curodd Heulwen ei dwylo bach. "Alla i ddim *aros* i'w gweld nhw eto," meddai. Ond yna edrychodd yn bryderus. "Ydych chi wedi gweld rhai o goblynnod Jac y Rhew yn rhywle?" gofynnodd.

"Ddim fan hyn," meddai Catrin, "ond roedd rhai wrth y crochan ddoe."

"Fe guddion ni o'r golwg y tu ôl i lwyn," eglurodd Siriol.

"Mae coblynnod yn bethau ofnadwy," meddai Heulwen a'i llais yn crynu. "Dwi wedi bod yn ddiogel yma yn y cwch gyda'r gwenyn, fy ffrindiau."



Teimlai Siriol drueni dros Heulwen. "Mae popeth yn iawn. Fe anfonodd y Brenin Gwyn ap Nudd un o'i frogaod i ofalu amdanat ti a dy chwiorydd."

"O, dwi mor falch!" meddai Heulwen. "Dwi wedi bod yn poeni'n ofnadwy am fy chwiorydd. Mae swyn Jac y Rhew mor oer a chryf."

"Fydd dim rhaid i ti aros lawer hirach," meddai Catrin. "Rydyn ni'n mynd i ddod o hyd i Alaw, Glesni, Indeg a Grug hefyd, on'd ydyn ni, Siriol?"




"Ydyn. Fe addawon ni," cytunodd Siriol.

"O, diolch!" meddai Heulwen gan godi'i breichiau ac ysgwyd ei hadenydd pefriog.

Cododd llwch hud i'r awyr a hofran i lawr o gwmpas Siriol a Catrin. Lle glaniodd y llwch, dechreuodd pilipalod bach melyn llachar hedfan.

Daeth gwenynen fawr allan o un o'r crwybrau agored nesaf at Heulwen.



"Dyma'r Frenhines, fy ffrind gorau," meddai Heulwen. Rhoddodd ei breichiau am wddf y wenynen a chusanu'i phen blewog.



Sïodd y Frenhines yn dawel.

"Mae hi'n dweud helô," meddai Heulwen.

"Helô, Frenhines," meddai Catrin a Siriol gyda'i gilydd.

Cododd Heulwen ei chrib a dechrau cribo gwallt sgleiniog y Frenhines. Sïodd gwenynen arall yn swnllyd o'i chwmpas.



"Paid â phoeni, Blod, ti fydd nesaf," addawodd Heulwen.

Edrychodd Siriol a Catrin ar ei gilydd yn siomedig.

"Beth os yw Heulwen eisiau aros gyda'r Frenhines a'r gwenyn eraill?" sibrydodd Catrin.

"Heulwen, mae'n rhaid i ti ddod gyda ni!" meddai Siriol yn bendant. "Neu fe fydd Gwlad y Tylwyth Teg heb liwiau am byth! Mae angen pob un o'r chwiorydd Enfys i dorri swyn Jac y Rhew."

# Heulwen yn Anghofio




"Wrth gwrs! Mae'n rhaid i ni dorri swyn Jac y Rhew!" gwaeddodd Heulwen. Neidiodd ar ei thraed a chodi'i hudlath.

Yn sydyn, cododd gwynt rhewllyd o rywle. Teimlodd Catrin y gwair yn crensian dan ei thraed. Roedd barrug a llwydrew drosto i gyd!

Crynodd Siriol wrth i rywbeth meddal ac oer rwbio'i boch yn ysgafn.

Pluen eira yn yr haf? "Beth sy'n digwydd?" gofynnodd.




"Mae'n rhaid bod coblynnod Jac y Rhew yn agos," meddai Catrin yn bryderus.

Roedd dannedd bach Heulwen yn clecian gan oerfel. "O, na! Os dôn nhw o hyd i mi, fe fyddan nhw'n fy rhwystro i rhag mynd 'nôl i Wlad y Tylwyth Teg!"



Edrychodd Catrin ar Siriol mewn arswyd. "Glou, mae'n rhaid i ni fynd!"

Pwysodd Siriol i lawr a chodi'r dylwythen deg allan o'r cwch.




Roedd mêl yn diferu o'i gwallt euraidd.

"O'r annwyl, rwyt ti'n ofnadwy o ludiog," meddai Siriol wrthi.

Sylwodd Catrin ar Mrs Morus yn dod allan o'i bwthyn.

"Ro'n i wedi anghofio 'mod i wedi gofyn am ddiod," meddai Catrin. "Beth wnawn ni nawr?"

Meddyliodd Siriol am eiliad, yna rhoddodd y dylwythen deg ym mhoced ei siorts.



"Hei! Mae hi'n dywyll fan hyn!" cwynodd Heulwen.

"Mae'n ddrwg gen i," sibrydodd Siriol. "Fe gei di ddod allan eto mewn munud."

Yn sydyn, sylwodd Catrin fod y cwch gwenyn ar agor. "Mae'n rhaid i ni roi'r caead 'nôl!" meddai.

Plygodd i lawr a chydio ynddo. Helpodd Siriol hi i'w godi a'i roi'n ôl yn gyflym, wrth i Mrs Morus gerdded tuag atyn nhw.



"Dyma dy ddiod di, bach," meddai Mrs Morus. Roedd hi wedi tynnu'r siwt ryfedd, ac yn cario basged siopa yn ei llaw.

"Diolch yn fawr iawn," meddai Catrin, gan gymryd y gwydryn oddi arni.



"Mae croeso i chi aros faint fynnoch chi," meddai Mrs Morus, "ond mae'n rhaid i mi fynd i brynu pysgod i'r gath."

Gwyliodd Siriol wrth i'r hen wraig gerdded at glwyd yr ardd. Yna llithrodd ei llaw i mewn i'w phoced a gafael yn Heulwen. "Fe gei di ddod allan nawr," meddai.

Roedd hen fflwff llwyd o boced Siriol wedi glynu dros Heulwen druan i gyd. "A-tishw!" meddai. Ceisiodd dynnu'r darnau o fflwff gludiog oedd yn sownd wrth ei hadenydd. "Mae fflwff drosta i i gyd!" llefodd. "Fydda i ddim yn gallu hedfan!"

"Rhaid i ni ei olchi i ffwrdd," meddai Siriol. "Brysiwch, rhag ofn i'r coblynnod ddod."






Edrychodd Catrin o'i chwmpas a gweld bath adar yn llawn o ddŵr glân. "Draw fan 'na," meddai gan bwyntio.

"Jest y peth," cytunodd Siriol gan gario Heulwen draw at y bath adar.

Safodd Heulwen ar ymyl y bath, rhoi ei hudlath i lawr, a phlymio i'r dŵr.

*Sblash!*

Sïodd y dŵr a throi'n felyn llachar gan dasgu diferion arogl lemwn i bobman.



Nofiodd Heulwen am ychydig, nes ei bod yn lân fel pìn mewn papur.

Hedfanodd yn gyflym drwy'r awyr i sychu. Wrth iddi wibio, roedd llwybr melyn yn ei dilyn. "Dyna welliant!" gwaeddodd.

Hofranodd o flaen Catrin, a'i hadenydd yn fflachio fel aur yn yr haul. Yna glaniodd ar ysgwydd Siriol. "Dewch, i ffwrdd â ni at y crochan ym mhen draw'r enfys," meddai.

Nodiodd Siriol. Roedd yn rhaid iddyn nhw fynd o'r ardd cyn i'r coblynnod gyrraedd.

"Hwyl fawr, Frenhines!" galwodd Heulwen, gan godi llaw ar ei ffrind.

Edrychodd y Frenhines allan o'r fynedfa i'r cwch. Roedd hi'n edrych braidd yn drist am fod Heulwen yn mynd, ond plygodd ei hadenydd, codi coes fach a sïo hwyl fawr.





Eisteddodd Heulwen ar ysgwydd Siriol wrth iddyn nhw gerdded i'r goedwig. Yn sydyn, dechreuodd hedfan fry i'r awyr. "O!" ebychodd. "Dwi wedi gadael fy hudlath ar ochr y bath adar!"

"O na!" meddai Siriol. "Rhaid i ni fynd 'nôl ar unwaith!"

"Rhaid wir," cytunodd Catrin. "Allwn ni ddim gadael i'r coblynnod ddod o hyd i hudlath tylwythen deg."

"O diar . . . O diar . . . " Gwibiodd Heulwen yn ôl ac ymlaen yn bryderus wrth iddyn nhw fynd 'nôl ar hyd y llwybr.

Safodd Siriol wrth y glwyd ac edrych i mewn i'r ardd, ond doedd dim sôn am y coblynnod yn unman.

Rhedodd Catrin a Siriol heibio'r coed afalau, yn syth at gwch y Frenhines. Hedfanodd Heulwen yn union uwch eu pennau.





Yn sydyn, daeth chwa o wynt rhewllyd o rywle nes gwneud i bawb grynu. Syllon nhw o'u cwmpas mewn arswyd. Roedd pibonwy'n hongian o'r coed afalau, a'r lawnt yn oer ac yn crensian gan farrug a llwydrew. Roedd y coblynnod wedi cyrraedd, gan ddod â'r gaeaf i'r ardd hyfryd hon.

Llefodd Heulwen mewn arswyd.

Neidiodd coblyn hyll a salw, â thrwyn fel bachyn, ar ben cwch gwenyn y Frenhines. Roedd ei lygaid mawr yn rhythu'n gas, ac yn ei law roedd hudlath Heulwen!

# Da iawn, Frenhines Fach



"Rho fy hudlath yn ôl i mi!" mynnodd Heulwen.

"Dere i'w nôl hi!" bloeddiodd y coblyn yn gas. Neidiodd oddi ar y cwch gwenyn a rhedeg tuag at glwyd yr ardd.

Cafodd Catrin fraw pan neidiodd coblyn arall i lawr o'r goeden afalau.

*Sblat!* Glaniodd e ar y gwair barugog a dechrau rhedeg.

"Dalia hi!" Taflodd y coblyn yr hudlath at ei ffrind. Hedfanodd yr hudlath drwy'r awyr, a gwreichion melyn yn saethu ohoni.


Cododd y coblyn arall ei law a dal yr hudlath. "Ha, ha. Wedi'i dal hi!"

"O, na!" ebychodd Heulwen.



Yr eiliad honno, hedfanodd y Frenhines fach allan o'r cwch gwenyn gan wneud sŵn sïo mawr. Heidiodd yr holl wenyn eraill yn gwmwl swnllyd y tu ôl iddi.


Gwyliodd Siriol yn ofalus. Gyda'r Frenhines yn y blaen, ffurfiodd y gwenyn gwmwl siâp saeth a mynd ar ôl y coblynnod.



"Gwylia, Frenhines fach!" ymbiliodd Heulwen.

"Cer o'r ffordd!" bloeddiodd y coblyn, gan ysgwyd hudlath Heulwen at y Frenhines.

Saethodd rhagor o wreichion melyn o'r hudlath. Tarodd un o'r gwreichion yn erbyn adenydd y Frenhines gan wneud iddi simsanu yn yr awyr. Yna dechreuodd sïo'n flin a chrac a hedfan tuag at y coblyn eto.




"Help!" Wrth geisio osgoi'r Frenhines, gollyngodd y coblyn yr hudlath.

"Rwyt ti'n anobeithiol!" cwynodd y coblyn arall, gan godi'r hudlath.




"Maen nhw'n dianc!" meddai Catrin yn siomedig.



Cododd y Frenhines a'i gwenyn i'r awyr eto.

"Nac ydyn!" gwaeddodd Siriol yn gyffrous. Saethodd y gwenyn ar draws yr ardd a diflannodd y coblynnod o dan gwmwl du, cas.

"Ewch o'ma!" poerodd y coblyn oedd yn gafael yn yr hudlath. Ceisiodd hel y gwenyn i ffwrdd, ond baglodd. Wrth iddo gwympo, tarodd yn erbyn y coblyn arall.



Cwympodd y ddau yn bentwr, gan ollwng yr hudlath ar y borfa.

"Dy fai di oedd hynna!" cwynodd un o'r coblynnod.

"Nage ddim!" meddai'r llall yn swta.

Gwibiodd y Frenhines heibio a chodi'r hudlath â'i thraed bach du.



Cariodd hi'n syth 'nôl at Heulwen, oedd yn sefyll ar law Siriol. Glaniodd y Frenhines wrth ochr Heulwen, a sïo.




Gafaelodd Heulwen yn ei hudlath a'i chwifio'n ofalus yn yr awyr. Llifodd llwch pefriog a philipalod disglair



ohoni. "Mae fy hudlath i'n gweithio'n iawn!" gwaeddodd yn hapus.

"Edrychwch! Mae'r coblynnod yn mynd," meddai Catrin. Roedd y gwenyn wedi dilyn y coblynnod i ben draw'r ardd. Roedden nhw'n dal i ddadlau wrth redeg ar draws y caeau.



Wrth i'r lleisiau cras ddiflannu, tawelodd y gwynt rhewllyd. Tywynnodd yr haul yn gynnes eto, a thoddodd y rhew. Daeth y gwenyn yn ôl a hedfan o gwmpas Siriol a Catrin, gan sïo'n dawel.

"Diolch, Frenhines!" Disgleiriodd llygaid Heulwen wrth iddi roi cwtsh i'w ffrind.

Yn sydyn, dechreuodd y Frenhines wyro'n drwm ar ei hochr. Ceisiodd Siriol ei dal rhag iddi rolio i ffwrdd. "Dwi'n credu ei bod hi wedi cael dolur," meddai. Penliniodd Heulwen ac edrych yn ofalus ar y Frenhines. "O na! Mae hi wedi rhwygo'i haden!" llefodd.






"Rhaid ei fod wedi digwydd pan oedd hi'n ymladd gyda'r coblyn," meddai Siriol.

"Wyt ti'n gallu defnyddio dy hudlath i drwsio aden y Frenhines?" gofynnodd Catrin i Heulwen.

Ysgydwodd Heulwen ei phen. "Ddim ar fy mhen fy hun. Ond efallai y bydd Ceirios a Gwawr yn gallu fy helpu. Mae'n rhaid i ni fynd â'r Frenhines at y crochan ym mhen draw'r enfys ar unwaith!"

# Y Tylwyth Teg yn Trwsio



Rhuthrodd Siriol a Catrin ar draws y caeau ac i mewn i'r goedwig. Cariodd Siriol y Frenhines yn ofalus yn ei dwylo, a hedfanodd Heulwen rhyngddyn nhw. Roedd ei hadenydd o liwiau'r enfys yn disgleirio yn yr haul.

"Dyma'r goeden lle mae'r crochan wedi'i guddio," meddai Catrin gan

edrych o dan ganghennau'r helygen. Roedd y crochan du ar ei ochr yn y gwair. Daeth broga mawr gwyrdd i'r golwg o'r tu ôl iddo.



"Brochfael!" Hedfanodd Heulwen i lawr a rhoi cwtsh iddo. "Dwi mor falch dy fod ti yma!"



Plygodd Brochfael ei ben. "Mae'n bleser, Miss Heulwen," meddai. "Fe fydd Miss Ceirios a Miss Gwawr wrth eu bodd yn eich gweld chi."



Yn sydyn, saethodd cawod o lwch hud coch ac oren o'r crochan, a neidiodd Ceirios a Gwawr allan ohono.




"Heulwen!" gwaeddodd Ceirios. "Ti sy 'na!"

"Mae hi mor braf dy gael di 'nôl," galwodd Gwawr yn hapus.

Gwenodd Catrin a Siriol wrth i'r tylwyth teg roi cwtsh a chusan i'w gilydd.

Sïodd yr awyr o'u cwmpas yn llawn blodau coch, swigod oren a philipalod bach melyn.



Hedfanodd Ceirios ar ysgwydd Catrin. "Diolch, Siriol a Catrin," meddai. "Nawr mae tair ohonon ni'n ddiogel." Sylwodd ar y Frenhines, oedd yn eistedd ar law Siriol. "Pwy ydy hon?" gofynnodd.



"Y Frenhines, fy ffrind," eglurodd Heulwen. "Mae hi newydd fy helpu i gael fy hudlath yn ôl – roedd y coblynnod wedi'i dwyn hi."

"Coblynnod?" meddai Ceirios gan grynu. "Roeddet ti'n ddewr iawn i ymladd â nhw."



Hedfanodd i lawr a mwytho pen y Frenhines.

"Fe ddefnyddiodd un o'r coblynnod fy hudlath i wneud niwed i aden y Frenhines. Fedrwch chi ei helpu hi?" gofynnodd Heulwen i'w chwiorydd.

Meddyliodd Gwawr yn ofalus. "Fe allwn i drwsio aden y Frenhines petai gen i nodwydd ac edau tylwyth teg, ond does gen i ddim byd yma ar yr ynys," meddai'n drist.

Yna cofiodd Siriol rywbeth pwysig. "Catrin! Beth am y bagiau hud roddodd Brenhines y Tylwyth Teg i ni?"

"Syniad da," meddai Catrin.



Rhoddodd ei llaw yn ei phoced a thynnu'r bag allan. Roedd e'n tywynnu â golau arian. Wrth iddi ei agor, saethodd cwmwl o lwch pefriog i'r awyr. "Mae rhywbeth fan hyn," meddai gan dynnu nodwydd fach ddisglair allan, gydag edau o sidan pry cop yn sownd wrthi. Rhoddodd y nodwydd i Gwawr.

"Perffaith!" meddai Gwawr, gan lanio ar law Siriol.



Mwythodd Heulwen ben du a melyn y Frenhines. "Paid â phoeni," meddai. "Hud tylwyth teg yw e, felly fydd e ddim yn gwneud dolur i ti."


Gwyliodd Catrin wrth i Gwawr ddefnyddio'r nodwydd a'r edau i wneud rhes o bwythau oedd yn disgleirio fel dotiau bach arian.



"Edrych, maen nhw'n dechrau pylu'n barod," meddai Siriol.

"Ydyn," meddai Gwawr. "Pan fyddan nhw wedi diflannu, bydd yr aden wedi gwella'n llwyr."

Sïodd y Frenhines yn dawel. Cododd ei phen a churo'i hadenydd cyn codi i'r awyr. Roedd ei haden fel newydd! Hedfanodd i lawr a glanio yn ymyl Gwawr. Plygodd ei phen, a rhwbio'i hadenydd yn erbyn llaw'r dylwythen deg.



"Rwyt ti wedi bod yn ffrind da i Heulwen – pam na wnei di aros gyda ni?" meddai Gwawr, gan roi cwtsh i'r wenynen.




"Ie," cytunodd Ceirios. "Dere i fyw gyda ni yn y crochan."

Hedfanodd y Frenhines draw at Heulwen a sïo yn ei chlust.



"Mae'n dweud y byddai hi wrth ei bodd," meddai Heulwen. "Mae 'na frenhines heb gwch gwenyn yng ngardd Mrs Morus, a byddai hi'n hapus iawn i ofalu am ei gwenyn. Dere, Frenhines fach. Gad i ni edrych ar ein cartref newydd."

"Fe ddown ninnau hefyd," meddai Catrin. Plygodd y ddwy ferch ar y gwair i wylio'r tair chwaer a'r frenhines yn mynd i mewn i'r crochan.



Gwenodd Heulwen wrth weld yr holl ddodrefn bach, bach ac eisteddodd yn gyfforddus ar glustog o fwsogl meddal. "Mae'n union fel ein cartref ni yng Ngwlad y Tylwyth Teg," meddai. Yna edrychodd yn drist.

"Ond beth am ein chwiorydd eraill ni? Maen nhw'n dal yn sownd yn rhywle ar yr ynys!"

"Paid â phoeni," meddai Catrin. "Fyddwn ni ddim yn hir yn dod o hyd iddyn nhw."

"Na fyddwn," cytunodd Siriol, a neidio ar ei thraed gan edrych ar ei wats. "Mae hi bron yn amser cinio. Mae'n rhaid i ni fynd. Hwyl fawr – welwn ni chi eto cyn bo hir."





Edrychodd y tylwyth teg i fyny a chodi llaw. "Hwyl fawr! Hwyl fawr!" Cododd y Frenhines goes fach a sïo.

Daeth Brochfael y broga allan ar ôl y ddwy ferch. "Fe fydd Ceirios, Gwawr a Heulwen yn ddiogel yma gyda mi," meddai. "Ond cymerwch ofal pan fyddwch chi'n chwilio am y lleill. Mae'r coblynnod yn dal o gwmpas, cofiwch!"

"Fe wnawn ni," addawodd Siriol.

Edrychodd Catrin yn ôl ar y crochan ym mhen draw'r enfys. "Fydd dim byd yn ein rhwystro ni rhag dod o hyd i weddill Tylwyth Teg yr Enfys," meddai'n bendant.

HUD YR enfys

Mae Ceirios, Gwawr a Heulwen
yn ddiogel. Nawr mae'n rhaid
i Siriol a Catrin
chwilio am

**Alaw, y Dylwythen Deg Werdd**

# Gardd Gyfrinachol

"O!" meddai Siriol wrth ei bodd, gan edrych o'i chwmpas. "Am le perffaith i gael picnic!"

"Gardd gyfrinachol yw hi," meddai Catrin, a'i llygaid yn pefrio.

Roedden nhw'n sefyll mewn gardd fawr. Roedd hi'n edrych fel pe na bai neb arall wedi bod yno ers amser hir, hir. Roedd rhosynnau pinc a gwyn yn tyfu o gwmpas boncyffion y coed, a'u persawr yn llenwi'r awyr. Roedd ffigurau marmor gwyn yma ac acw, bron o'r golwg dan yr iorwg gwyrdd.

Ac ynghanol yr ardd roedd hen, hen dŵr cerrig.

"Roedd 'na gastell yma un tro," meddai tad Siriol gan edrych yn ei lyfr taith. "Ond dim ond y tŵr sy'n dal i sefyll."

Syllodd Siriol a Catrin i fyny ar yr hen dŵr. Roedd y cerrig melyn yn disgleirio yn yr haul, a mwsogl meddal, gwyrdd yn tyfu drostyn nhw. Yn uchel yn y tŵr roedd ffenest fach sgwâr.

"Mae'n union fel tŵr Rapwnsel," meddai Catrin. "Tybed allwn ni ddringo i'w ben e?"

"Beth am fynd i weld!" meddai Siriol yn gyffrous. "Gawn ni edrych o gwmpas yr ardd, Mam?"

"I ffwrdd â chi," gwenodd ei mam. "Fe wna i a Dad baratoi'r picnic,"



meddai gan agor y fasged. "Ond peidiwch â bod yn rhy hir."

Rhuthrodd Siriol a Catrin draw at y drws yn ochr y tŵr.

Darllena lyfrau eraill

HUD YR enfys

**Alaw, y Dylwythen Deg Werdd**

i weld beth mae Siriol a Catrin yn dod o hyd iddo ar ben y tŵr.



# HUD YR enfys





**Dilyna dylwythen deg i ben draw'r enfys!**

Mae Heulwen,
y Dylwythen Deg Felen,
mewn sefyllfa anodd iawn.
Rhaid i Siriol a Catrin ddilyn
llwybr troellog o lwch hud melyn
i ddod o hyd iddi.







**Dewch gyda Siriol a Catrin i gwrdd â thylwythen deg wahanol ym mhob un o'r anturiaethau cyffrous!**



HiT entertainment
£3.99
5+
ISBN 978-1-904357-41-4
9 781904 357414
www.rily.co.uk

RAINBOW magic